



Ein cyf qA1270260

I'r holl ymgeiswyr yn yr etholiadau
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac
Cynghorau Cymuned a Thref

Ionawr 2017

Annwyl Gyfaill,

Hoffwn eich llongyfarch ar eich penderfyniad i sefyll fel ymgeisydd yn yr etholiadau llywodraeth leol sydd i ddod.

Rydym am i'n cynghorau i fod yn gynrychioliadol o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i annog pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i sefyll ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol i gynnal arolwg o ymgeiswyr ym mhob etholiad llywodraeth leol fel y gallwn fesur y cynnydd a wneir er nad oes unrhyw ymgeiswr yn cael ei orfodi i ddarparu unrhyw wybodaeth.

Ar gyfer yr etholiad yma bydd yr Uned Ddata Llywodraeth Leol (Uned Ddata Cymru) yn cynnal yr arolwg ar ran awdurdodau lleol yng Nghymru. Yna bydd y data a gesglir yn cael eu darparu i bob awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn seiliedig ar y canlyniadau.

Am fwy o wybodaeth ac i gwblhau'r arolwg ewch i:

www.etholiad.cymru

Bydd y wybodaeth a gasglwyd o'r arolwg yn ein helpu i adolygu a datblygu polisïau i ehangu cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd.

Byddwn yn eich annog i gyd i lenwi'r arolwg, pe bai am y tro cyntaf neu os cwblhawyd ar gyfer yr etholiadau diwethaf – mae eich cymorth yn amhrisiadwy i ni. Os hoffech gopi papur o'r arolwg neu os oes gennych unrhyw ofynion hygyrchedd, cysylltwch â'r Uned Ddata Cymru ar 029 2090 9500.

Yn gywir

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol